# Monmouthshire Select Committee Minutes

**Pwyllgor Perfformiad a Throsolwg**
**Neuadd y Sir Brynbuga**
**Dydd Iau, 7fed Gorffennaf, 2022, 10.00 am**

| **Cynghorwyr yn Bresennol** | **Swyddogion yn Bresennol** |
|---|---|
| Cynghorydd Sir Alistair Neill (Cadeirydd)<br><br>Cynghorydd Sir: Jill Bond, Ian Chandler, Tony Kear, Paul Pavia, Peter Strong, Ann Webb, Laura Wright | Paul Matthews, Prif Weithredwr<br>Peter Davies, Prif Swyddog, Adnoddau<br>Matt Phillips, Pennaeth Cyfraith/Swyddog Monitro<br>Jonathan Davies, Rheolwr Cyllid Cyfrifeg Canolog<br>Matthew Gatehouse, Pennaeth Polisi a Llywodraethiant<br>Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu<br>Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu<br>Richard Jones, Rheolwr Perfformiad<br>Emma Davies, Swyddog Perfformiad<br>Nia Roberts, Welsh Language Officer<br>Dave Loder, Rheolwr Cyllid<br>Nikki Wellington, Rheolwr Cyllid |

**Ymddiheuriadau:** Cynghorydd Sir Angela Sandles

1. **Ethol Cadeirydd**

Apwyntiwyd y Cynghorydd Alistair Neill fel Cadeirydd.

2. **Croeso gan y Cadeirydd**

Roedd y Cadeirydd wedi croesawu Aelodau'r Pwyllgor. Yn ei sylwadau, roedd pwysleisio pwysigrwydd gwaith y Pwyllgor, gan nodi fod craffu effeithiol yn bwysig ar gyfer sicrhau Cyngor da. Roedd wedi atgoffa Aelodau o rôl y Pwyllgor i wneud argymhellion, nid penderfyniadau, a dylai y gwaith fod yn wrthrychol, er mwyn gwella gwasanaethau ac – yn ddelfrydol – osgoi problemau cyn eu bod yn digwydd. Mae'r craffu mwyaf effeithiol yn digwydd cyn gwneud penderfyniad, er mwyn helpu'r Gweithgor i lunio polisïau da. Mae'r Pwyllgor yn medru adlewyrchu llais y cyhoedd yn ei waith, a'u pryderon, ynghyd â'r rhai a ddaw o'n partneriaid a'n budd-ddeiliaid.

Bydd y Pwyllgor yn dal Aelodau yn atebol am ddarparu gwasanaethau a rheoli risgiau. Mae monitro ariannol cadarn a'n sicrhau bod y Cyngor yn atebol am ei amcanion corfforaethol sydd yn y cynllun corfforaethol yn hanfodol. Bydd yn bwysig i'r Cadeirydd ac aelodau'r Pwyllgor eu bod yn gweithio'n effeithiol y tu allan i'r cyfarfodydd gyda swyddogion, Aelodau gweithredol, grwpiau cymunedol a phartneriaid. Bydd y Cadeirydd yn ceisio gweithio gyda'r Aelodau Cabinet er mwyn goruchwylio gwaith y rhaglen. Bydd y Pwyllgor angen sicrhau bod yr argymhellion yn gytbwys a'n gywrain. Mae'r craffu angen bod yn fanwl a chyson - mae'n well ein bod yn craffu llai o feysydd ond yn gwneud hynny'n dda a dylid ystyried hyn wrth lywio'r Blaenraglen Waith.

3. **Penodi Is-gadeirydd.**

Derbyniwyd enwebiadau ar gyfer y Cynghorydd Wright, y Cynghorydd Kear a'r Cynghorydd Chandler.

Apwyntiwyd y Cynghorydd Kear fel Is-Gadeirydd yn dilyn pleidlais.

4. **Datganiadau o Fuddiant**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

5. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd.**

Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau gan y cyhoedd.

6. **Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2021-22 – Craffu ar berfformiad y Cyngor wrth gydymffurfio gyda Safonau'r Gymraeg.**

Roedd Matthew Gatehouse wedi cyflwyno'r adroddiad ac ateb cwestiynau'r Aelodau.

**Her:**

*A yw'r hyfforddiant staff yn agored i Gynghorwyr? A oes yn gynlluniau i fynd yn ôl i hyfforddi mewn person?*

Ydy, mae ar agor i Aelodau – rydym am helpu cynifer o bobl ag sydd yn bosib, gyda phethau fel dosbarthiadau sgwrsio dros ginio. Ym mis Medi, byddwn yn debygol o gyflwyno cyfleoedd i hyfforddi mewn person ac yn hapus i ariannu cyrsiau mewn mannau eraill hefyd – y peth allweddol yw annog cynifer o bobl ag sydd yn bosib i siarad.

*Beth fydd yn cael ei drefnu er mwyn delio gyda'r gorwariant nawr ac yn y blynyddoedd nesaf?*

Mae yna ddyletswydd gyfreithiol gennym i gyfieithu pethau ac nid ydym yn medru ceisio osgoi hyn. Mae yna gyfrifoldeb i weithredu o fewn y Gyllideb sydd wedi ei gosod gan y Cyngor ar gyfer y maes hwn, ac rydym wedi ceisio mynd i'r afael gyda gorwariant. Er enghraifft, roedd ein Swyddog Iaith Gymraeg wedi ymddeol mewn blwyddyn etholiad, gan arwain at fwlch yn y cyflog a dalwyd am gyfnod. O ganlyniad, bydd yna danwariant yn y maes hwn fel sydd wedi ei ddangos yn yr eitem agenda nesaf.

*Sut y mae'r gwaith tendro ar gyfer comisiynu gwaith cyfieithu yn cael ei wneud? A yw'n amser i adolygu hyn? A yw Caerdydd yn ein helpu fel rhan o'r bartneriaeth? A ydym yn cyfieithu unrhyw beth yn fewnol? A yw Awdurdodau eraill yn rhannu gwasanaethau cyfieithu h.y. yn cydweithio gyda'r sawl sydd â mwy o ddarpariaeth?*

Roeddwn wedi ystyried y sefyllfa hon rhyw 2.5-3 mlynedd yn ôl – rydym yn adolygu'r sefyllfa yn gyson er mwyn sicrhau bod ein trefniadau yn gost-effeithiol. Nid oes cyfieithwyr mewnol gennym

ond rydym yn defnyddio criw sefydlog o 6-7 o gyfieithwyr o bob cwr o Gymru. Mae'r cyfraddau yr ydym yn talu yn gystadleuol iawn o'u cymharu gyda'r opsiynau amgen. Roeddem wedi ystyried gofyn i awdurdod lleol arall i ddarparu'r gwasanaeth ond byddai wedi costio tua £30-40k yn fwy bob blwyddyn. Roeddem hefyd wedi gofyn i gydweithwyr Caffael a oedd unrhyw werth mynd yn ôl i'r farchnad; wedi ystyried maint y farchnad a swm yr arbedion posib, nid oeddynt yn credu y byddai'r contractau yn cynnig digon o werth i fynd yn ôl i'r farchnad. Ond byddwn yn parhau i adolygu hyn.

Roeddem wedi ystyried dod â'r gwasanaeth yn rhan o'r Awdurdod, yn rhannol yn sgil y dechnoleg sydd ar gael ond mae llawer o'r busnesau unigol yn defnyddio meddalwedd/offerynnau dysgu sydd yn caniatáu hwy i gadw eu costau yn isel. Nid ydym yn gwneud rhyw lawer yn fewnol ac eithrio rhai pethau fel prawfddarllen. Gan amlaf, mae'r cyfieithwyr yn medru cyfieithu pethau o fewn yr awr pan fydd angen.

*Beth yw cyfanswm nifer y staff ym mhob un maes gwasanaeth – a yw'n cynnwys y rhai sydd heb ddechrau dysgu?*

Nid yw'r niferoedd hynny gennym ar hyn o bryd ond bydd modd darparu hyn maes o law, a'u cynnwys yn adroddiadau'r dyfodol er mwyn eu gwneud yn fwy defnyddiol i Aelodau.

*Faint o'r gwelliannau sydd wedi eu gwneud dros y flwyddyn ddiwethaf sydd yn ymwneud gyda staff newydd?*

Mae'r staff wedi sicrhau cymwysterau newydd ond mae cynnydd sylweddol wedi'i achosi gan recriwtio staff allanol. Mae'r ffordd y mae'r dechnoleg wedi datblygu yn caniatáu ni weithio'n wahanol ac mae hyn yn golygu bod modd i ni recriwtio pobl o ogledd a gorllewin Cymru - nid yw pobl o reidrwydd yn byw yn lleol. Agwedd arall yw ceisio targedu recriwtio, er enghraifft, swyddi gofal cartref ac roedd y Swyddog Iaith Gymraeg wedi mynd ar Radio Cymru i annog siaradwyr Cymraeg i wneud cais. Ond mae'r her yn parhau ac nid ydym wedi cyrraedd ble sydd angen o ran recriwtio. Nid oes llawer wedi manteisio ar gyrsiau yn y blynyddoedd diwethaf, oherwydd nid ydym wedi sicrhau'r enillion yr hoffem weld. Er mwyn delio gyda hyn, rydym yn hysbysebu swyddi fel 'Cymraeg hanfodol', yn enwedig mewn swyddi rhengflaen.

*A oes unrhyw beth wedi ei ystyried er mwyn ceisio deall y trafferthion sydd yn rhan o recriwtio a chadw gafael arnynt? A yw'n broblem ddaearyddol neu a oes yna gysyniad ohonom fel rhai na sydd yn cymryd yr iaith o ddifri'? A yw cyflog yn ffactor?*

Nid yw'n her unigryw i Sir Fynwy, ac rydym wedi rhannu adborth gyda'r Comisiynydd, ac mae perthynas dda iawn gyda ni gyda'r Comisiynydd. Nid oes llawer o siaradwyr Cymraeg gennym yn y rhan yma o Gymru. Mae llawer o siaradwyr yn dod i swyddi lefel uwch – nid yw llawer ohonynt yn gweithio mewn gwasanaethau rhengflaen. Mae yna heriau sylweddol ym maes Gofal Cartref – yn enwedig yn Sir Fynwy, yn sgil y prisiau tai. Nid ydym wedi mynd eto i'r ysgolion cyfrwng Cymraeg, a nosweithiau Gyrfaoedd, er mwyn datblygu pobl dipyn ynghynt. Hefyd, mae angen datblygu gweithgareddau iaith Gymraeg ar LinkedIn a gwefannau Gyrfaoedd er mwyn dangos bod yr iaith yn cael ei hannog yma a'n bod am ddatblygu'r iaith. Rydym yn benderfynol o roi cynnig ar dactegau er mwyn ein gwneud ni yn gyflogwr mwy atyniadol i siaradwyr Cymraeg.

*Os oes yna gais am ddarpariaeth gofal drwy gyfrwng y Gymraeg, a oes modd i ni gynnig hyn?*

Oes. Mae Cynorthwywr Gofal Iaith Gymraeg gennym ond nid oes digon gennym. Os ydym yn cael trafferth, rydym yn talu premiwm y farchnad er mwyn diwallu anghenion gofal unigolyn.

*A ydym yn siarad ag awdurdodau eraill am arferion gorau?*

Rydym yn rhan o rwydwaith Swyddog Iaith Gymraeg, ac rydym yn ymgysylltu drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Rydym yn ceisio dysgu o arferion gorau. Rydym yn fudiad llai na mudiadau eraill, sydd yn golygu bod angen i ni ddefnyddio adnoddau'n effeithiol. Ond mae yna feysydd lle y mae mudiadau yn dod atom ni. e.e. ynglŷn â'n gwasanaethau cyfieithu gan fod ein dull o weithio yn dda iawn. Rydym yn gwneud hyn ar gyfer mudiadau fel Cyngor Ar Bopeth hefyd, gan ein bod yn medru gwneud hyn yn fwy cost-effeithiol nag unrhyw un arall.

*Pa fath o hyrwyddo mewnol sydd yno ar gyfer hyfforddi staff?*

Rydym yn defnyddio llwyfannau fel Sharepoint (ein safle Mewnrwyd): mae yna dudalen Gymraeg gennym yno, gyda chyrsiau yn cael eu cyhoeddi ar Talent Lab. Mae'r ffaith nad oes digon o bobl yn cwblhau'r cyrsiau yn awgrymu y byddem yn elwa o wneud mwy a pharhau i'w gwthio hwy i wneud pethau fel Cwtch Digidol a Diwrnod Schmae. Mae syniadau a brwdfrydedd ein Swyddog Iaith Gymraeg yn golygu y bydd yna gryn fwy yn cael ei wneud i hyrwyddo a chynnal gweithgareddau dros y misoedd nesaf.

*A oes modd cysylltu'r pwysigrwydd o ddenu pobl gyda'r broblem ehangach o recriwtio staff i feysydd penodol? I ba raddau y mae'r gofyniad yma yn atal rhai gweithwyr posib ardderchog rhag dod a gweithio yn y swyddi allweddol yma, o feddwl am y ffin yr ydym yn rhannu gyda Lloegr?*

Nid oes yna ateb hawdd i'r broblem gyffredinol hon o recriwtio staff. Rydym yn medru elwa mewn nifer o ffyrdd fel y porth i Gymru oherwydd efallai y byddwn yn canfod fod siaradwyr Cymraeg gyda swyddi ym Mryste a Gorllewin Cymru yn dewis aros i fyw yno a chymudo. Mae rhai grwpiau sgwrsio da iawn gennym, ac rydym yn gweithio i'w cefnogi hwy er mwyn sicrhau bod pobl sydd am ddefnyddio'r Gymraeg, ac yn ystyried symud nôl yma i weithio, yn cydnabod fod hwn yn lle da i'r iaith. Rydym wedi ceisio manteisio ar waddol yr Eisteddfod a gynhaliwyd ym 2016 yn y Fenni a oedd wedi rhoi hwb sylweddol i'r iaith yn y sir. Ond mae yna heriau recriwtio sylweddol na sydd yn unigryw i'n siaradwyr Cymraeg.

*A ydym yn medru bod yn rhagweithiol gyda staff a chynghorwyr drwy gael gair neu ymadrodd y diwrnod yn y Gymraeg pan eu bod yn mewngofnodi bob blwyddyn?*

Efallai bod yna gyfyngiadau ayyb gan ein bod wedi rhoi cynnig ar hyn mewn meysydd eraill ond byddwn yn gwirio hyn gyda'r tîm digidol er mwyn deall yr hyn sydd yn bosib. Bydd yna bethau eraill y mae modd i ni wneud, fel hyrwyddo'r apiau sydd yn annog dysgwyr i gwblhau tasg dysgu e.e. Duolingo.

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Diolch i chi am yr adroddiad cynhwysfawr hwn. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad fod y Cyngor angen parhau gyda'i ymdrechion er mwyn recriwtio mwy o siaradwyr Cymraeg i wasanaethau rhengflaen, fel gofal cymdeithasol, gan gydnabod fod recriwtio yn y sector yn her genedlaethol. Roedd y Pwyllgor wedi gofyn am wybodaeth bellach am y nifer o staff sy'n siarad Cymraeg mewn meysydd gwasanaeth unigol a bod hyn yn cael ei e-bostio yn dilyn y cyfarfod.

**7. <u>Alldro Cyfalaf Refeniw 2021-22 Adroddiad Monitro'r Gyllideb – Craffu ar y drafft adroddiad a dynodi unrhyw feysydd ar gyfer craffu yn y dyfodol.</u>**

Roedd Jonathan Davies wedi cyflwyno'r adroddiad ac ateb cwestiynau'r Aelodau gyda Dave Loder, Peter Davies a Nicola Wellington.

**Her:**

*Mae heriau'r dyfodol o ran darparu gwasanaethau wedi eu hamlygu. A oes set mwy manwl o asesiadau ar gyfer y risgiau tebygol? Beth am y pwysau chwyddiant a'r materion perthnasol eraill?*

Roedd llawer o'r risgiau yn wybyddus pan oeddwn yn gosod y cyllidebau, pan oeddwn wedi cynnal dadansoddiad llawn. Nid oedd rhai o'r pwysau chwyddiant mor amlwg ar y pryd hynny: rhaid oedd ymateb iddynt yn gyflym wrth iddynt ddatblygu. Bydd adrodd ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol yn dilyn gydag adroddiad Mis 4 yn dod i'r Pwyllgor ym mis Medi a fydd yn mynd i'r afael gyda sut y mae rhai o'r risgiau yn cyflwyno eu hunain. Mae'r prif risgiau wedi eu hamlygu ym 3.28 ac maent i'w disgwyl: mae dal diffygion o ran y gyllideb strwythurol sydd yn ymwneud gyda gofynion ar gapasiti Gofal Cymdeithasol, Cartrefi Gofal yn agosáu at 100%, ac felly, rydym yn ariannu'r llefydd yma ac nid oedd rhaid i i wneud hyn yn ystod y pandemig. Mae materion staffio ym maes Gofal yn y Cartref yn nodwedd allweddol o'r gwasanaeth, ac rydym yn chwilio am help allanol er mwyn cefnogi hyn. Mae digartrefedd yn faes allweddol – mae yna newid polisi wedi bod gan Lywodraeth Cymru ac mae dal llawer o fanylder angen ei gadarnhau ynglŷn â sut ydym yn cefnogi'r gwasanaeth.

*Mae tanwario yn gymaint o bryder ag y mae gorwariant gan ei fod yn awgrymu nad ydym yn darparu gwasanaethau fel ydym yn gobeithio. A yw 'arbedion' yn golygu ein bod yn ceisio arbed yr arian neu a yw hyn yn danwariant nad oeddem yn ceisio sicrhau e.e., arbedion costau staff yn y Gwasanaeth Seicoleg i Ysgolion?*

Mae 'arbedion' neu 'fesurau lliniaru' yn golygu bod y rhain wedi eu dwyn gerbron cyn dechrau'r flwyddyn ariannol a pha wasanaethau sydd wedi cynnig effeithlonrwydd neu'r mesurau lliniaru sydd yn bosib, i'w gweld yn Nhabl 2. Mae'r arbedion penodol yn SPS i'w briodoli i swydd wag. Mae tanwariant yn cyfeirio at yr hyn sydd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn i'r gyllideb a osodwyd, yn hytrach nag arbedion neu fesurau lliniaru a gytunwyd ar ddechrau'r flwyddyn, ond mae'r ddau weithiau yn cyfuno.

*Beth yw'r esboniad ar gyfer y tanwariant sylweddol ar gyfer Priffyrdd?*

Mae'n cynnwys dwy ran. Mae'r arbedion cyntaf yn ymwneud gyda staffio, gan fod yna nifer o swyddi gwag yn y maes hwn. Maent yn ceisio llenwi'r swyddi gwag yma nawr. Yr ail beth yw'r lefelau uchel o incwm y llynedd, sydd yn cynnwys dwy ran: roeddem yn medru ail-godi tâl ar gyfer costau staff ar y cyllidebau cyfalaf a grantiau, ac roeddem wedi derbyn mwy o incwm yn sgil ffyrdd wedi eu cau, ac nid oedd hyn wedi ei rannu gyda Chyllid tan yn hwyrach yn y flwyddyn. Roedd yr incwm wedi dyblu, gan greu hwb sylweddol yn ein hincwm. Mae'n debygol iawn y bydd yna danwariant sylweddol eleni.

*Beth mae'r arian dros ben o ran Mentrau Strategol yn golygu?*

Mae Mentrau Strategol yn gyllideb gorfforaethol sydd gennym: mae'r tanwariant o £1m yn grant hwyr yr ydym wedi derbyn gan Lywodraeth Cymru er mwyn cefnogi'r gwaith o gasglu'r dreth gyngor yn ystod y flwyddyn. Mae'r arian ym Mentrau Strategol er mwyn ei gadw ar wahân i'r dreth gyngor, er mwyn adrodd ar hyn mewn modd tryloyw.

*Yn yr achosion lle ydym yn gweld amrywiaethau sylweddol o'r cyllidebau, mae'n ddefnyddiol i gael sylwadau ar yr effaith ar wasanaethau. Mae swyddi gwag yn 'pam' ond beth mae hyn yn golygu a beth sydd wedi ei wneud er mwyn lliniaru'r gostyngiad yn lefel y gwasanaethau a ddarperir yn ystod y cyfnod hwn e.e. mewn Priffyrdd a Llifogydd?*

Yn Atodiad 1, mae Cyfarwyddwr y gwasanaeth yn ceisio darparu sylwadau ehangach ar yr effaith dros y flwyddyn, ond nid efallai mor fanwl ag sydd wedi ei ddymuno. Mae Pennaeth y Gwasanaeth neu'r rhai sydd yn gyfrifol yn meddu ar ddealltwriaeth well o effaith y tanwariant. Dylai nodweddion isorweddol gael eu cynnwys yn yr adroddiadau Perfformiad.

O ran cyd-destun cyffredinol, wrth i ni fynd drwy'r flwyddyn ariannol ddiwethaf, roeddem wedi wynebu gorwariant sylweddol yn y misoedd cynnar – nid oeddem yn gwybod am y grantiau sylweddol yr oeddem yn mynd i dderbyn gan Lywodraeth Cymru. Roeddem am sicrhau nad oeddem yn gwario'n ddifeddwl, gan ymatal rhag llenwi swyddi. Gwnaed y penderfyniadau hynny yn y flwyddyn, a daeth yr holl grantiau yn hwyrach. O ran blwyddyn gyfredol 22-23, rydym yn disgwyl sefyllfa heriol ym Mis 4. Ond pan ein bod yn gosod y gyllideb ar gyfer y flwyddyn gyfredol, roeddem yn gwybod am y risgiau sylweddol sydd eisoes wedi eu crybwyll a'n cadw arian er mwyn talu am rai o'r risgiau. Yr her yw'r risgiau na sy'n wybyddus h.y. y rhai sydd yn dod o'r argyfwng costau byw a'r chwyddiant sydd yn dod yn amlwg mewn ffyrdd gwahanol ac yn cymryd amser i weithio drwy'r amser.

*Pa mor ddatblygedig yw cynlluniau buddsoddi yr ysgolion a sut y mae yr ysgolion yn cael eu helpu i weithredu'r rhain?*

Roedd ysgolion wedi derbyn nifer o grantiau tuag at ddiwedd y flwyddyn a rhoddwyd caniatâd iddynt symud y rhain i mewn i'r flwyddyn ariannol gyfredol. Rydym yn gweithio ag ysgolion er mwyn creu cyllidebau 3 mlynedd sydd yn gynlluniau buddsoddi, gan sicrhau bod arian yn cael ei wario'n briodol, yn unol gyda thelerau ac amodau'r grantiau. Gyda'n holl ysgolion, mae cyllidebau ariannol 22-23 yn eu lle, wedi eu cymeradwyo gan y cyrff llywodraethu. Os oes yna ddiffyg arian mewn ysgol, mae yna gynllun adferiad gennym. Rydym yn monitro ysgolion yn fisol/bob yn ail fis er mwyn cwrdd â'r cynlluniau yma.

*A oes angen i ni gofnodi unrhyw ddata ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer swyddi gwag ym mhob adran, a hynny ar draws y mudiad?*

Mae'r data o ran swyddi gwag o fewn portffolio ein Prif Swyddog ar gyfer Pobl a Llywodraethiant a chydweithwyr yn Adnoddau Dynol, ac felly, mae modd eu cyhoeddi.

*A ydych yn rhagweld y bydd cymorth cynnal a chadw yn dod yn her yn y blynyddoedd sydd i ddod? A fydd y broblem yma o ran capasiti yn atal y cynlluniau hynny rhag cael eu gweithredu?*

Mae yna bryder fod capasiti yn mynd i fod yn her, ymhlith ein gweithwyr a chontractwyr. Mae'n fater o weithio'n agos ag ysgolion er mwyn cadarnhau pryd i wneud y gwaith. Nid oes rhaid gwario'r grant Cynnal a Chadw erbyn 31ain Mawrth 2023 ac felly mae yna amser ar gael i ni weithio ag ysgolion er mwyn sicrhau bod arian yn cael ei wario.

*A oes unrhyw gynlluniau neu ragolygon i dalu am unrhyw risgiau neu ddefnydd llai o Barc Spytty a Castle Gate?*

Effeithiwyd ar yr asedau hynny yn ystod Covid. Roedd Llywodraeth Cymru wedi ehangu'r Gronfa Galedi Covid i dalu am y colledion ac mae hyn i'w groesawu. Mae lefelau meddiannaeth ym Mharc Busnes Castle Gate wedi parhau'n gryf iawn yn ystod y pandemig, er bod Parc Hamdden Casnewydd wedi ei effeithio yn amlwg yn sgil natur y tenantiaethau ond roeddem yn medru cadw'r tenantiaid yno yn sgil y Gronfa Galedi. Mae'r tenantiaid yn gweithio'n

dda a byddwn yn parhau i asesu hynny drwy'r Pwyllgor Buddsoddi. Yn ystod y camau cynnar o osod y gyllideb CG gydag un o'r tenantiaid yn dweud eu bod yn bwriadu gadael, rydym wedi helpu tenant arall i ehangu a defnyddio'r gofod hwnnw. Mae'n cael ei gamddeall yn aml ond mae'r tenantiaid yma yn cyfrannu incwm net sylweddol i'r Cyngor, gan ganiatáu ni gynnal a darparu gwasanaethau.

*A oes yna ddiweddariad ar y Termau Prydles Sydd Wedi'i Pwysoli Ond Heb Ddod i Ben?*

Nid yw'r wybodaeth ar gael gennym ond byddwn yn darparu hyn i'r Pwyllgor.

*Beth fyddai effaith y pandemig pe na bai yna gyllid ychwanegol? A ydym yn llwyr ddeall y pwysau sydd yn mynd i'n hwynebu yn y dyfodol?*

Pe na bai'r arian o'r Gronfa Galedi ar gael ym 2020, nid oedd yr arian wrth gefn gennym i ddelio gyda'r pwysau yma. Byddem wedi gorfod ymateb gyda rhai newidiadau sylweddol iawn. Mae Cymru wedi elwa dipyn yn fwy o gyllid yn cael ei roi i Lywodraeth Leol a'r Gronfa Galedi, a hynny o'i gymharu gyda Lloegr. Rydym wedi medru neilltuo'r arian yma wrth gefn. Heb y lefel yma o gymorth o'r Gronfa Galedi, byddai ein sefyllfa ariannol wedi bod yn fregus iawn.

*Bydd yna donnau pellach o Covid, a sawl pandemig yn y dyfodol. A fyddai'n werth nodi'r hyn sydd wedi gweithio a'r hyn na ddylem fod wedi gwneud ayyb er mwyn paratoi ar gyfer hyn yn y dyfodol?*

Roedd strwythurau cymorth brys o'r Ddeddf Argyfyngau Sifil Posib wedi dod i rym ym Mawrth 2020. Matt Phillips, Prif Swyddog ar gyfer Pobl a Llywodraethiant, sydd yn gyfrifol am y portffolio sy'n cynnwys Cynllunio Brys, a fydd wedi dysgu gwersi o hyn, a hynny hefyd ar lefel Gwent a Llywodraeth Cymru. Mae yna ymchwiliadau yn cael eu cynnal o ran y Cartrefi Gofal yn ystod y pandemig a fydd yn arwain at dystiolaeth o'r gwersi sydd wedi dysgu ar lefel leol a chenedlaethol. Efallai y byddai modd gofyn am grynodeb o'r gwersi a ddysgwyd gan Matt Phillips.

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Cynigiwyd yr argymhellion a chytunwyd ar hyn gydag Aelodau. Roedd y Pwyllgor wedi gwneud cais am wybodaeth o'r pwysau chwyddiant yr ydym yn wynebu a bod hyn yn cael ei e-bostio i Aelodau er mwyn eu helpu i ddeall effaith chwyddiant ar gyllideb y Cyngor. Bydd yn bwysig i ddwyn y gwersi o'r pandemig ynghyd, yn enwedig yr effaith ariannol sydd yn effeithio ar wasanaethau, er mwyn sicrhau ein bod yn parhau mor ddygn ag sydd yn bosib.

**8. <u>Hunanasesiad 2021-2022 Cyngor Sir Fynwy – Craffu ar berfformiad y Cyngor yn ystod 2021-2022 o gymharu â'r nodau a amlinellir yng Nghynllun Corfforaethol 2017-2022, gan gytuno ar unrhyw feysydd ar gyfer craffu pellach..</u>**

Roedd Richard Jones wedi cyflwyno'r adroddiad ac ateb cwestiynau gan yr Aelodau gyda Matthew Gatehouse ac Emma Davies.

**Her:**

*Fel rhan o'n gwaith i leihau ein hol-troed carbon a gwastraff, a oes yna sgôp tuag at weithio at ymddygiad newydd e.e. sebon yn hytrach na geliau, pwyslais ar ymatal rhag defnyddio yn hytrach nag ailgylchu, dealltwriaeth fod plastig yn dod o olew? A ydy hyn wedi ei ystyried?*

Rydym wedi datgan Argyfwng Hinsawdd ac wedi paratoi Cynllun Gweithredu, ond mae'r adroddiad yn cydnabod fod angen gwneud mwy: rydym yn ystyried sut i gyflawni mwy gydag ein hadnoddau. Mae'r Aelod wedi rhoi awgrymiadau ardderchog i ni eu gweithredu.

*Sut y mae'r Pwyllgorau Ardal yn perfformio a sut ydynt wedi eu trefnu? A oes yna adborth gan gymunedau am berfformiad CSF?*

Y peth allweddol yw cydnabod nad ydynt wedi bod yn cwrdd yn ddiweddar. Mae yna nifer o werthusiadau wedi eu cynnal yn y blynyddoedd diwethaf. Bydd yr Aelod Cabinet Fookes yn dechrau cyfranogiad cyhoeddus cyn hir a fydd yn ymgorffori gweithio gyda'r Pwyllgorau Ardal.

*A oes yna wahaniaeth rhwng fersiwn 1.0 a 2.0 a rannwyd ar gyfer y Pwyllgor Awdit ac Archwilio'r wythnos nesaf?*

Nid oes newidiadau mawr wedi eu gwneud rhwng 1.0 a 2.0, ond mae'n fwy bod yr adroddiad yn edrych nôl ar 21-22. Rydym wedi parhau i fireinio ychydig o'r data a thystiolaeth ac mae rhai o'r dangosyddion perfformiad wedi eu diweddaru. Un newid sylweddol yw ychwanegu'r amserlenni i'r cynlluniau gweithredu. Roedd y rhan fwyaf o gasgliadau a manylion heb eu newid. Rydym yn medru olrhain y newidiadau wedi hyn e.e. yn yr adroddiad sydd i'w gyflwyno i'r Cyngor yn mis Medi. Er eglurder, mae '.0' yn cael ei ddefnyddio pan fydd rhywbeth wedi ei gyhoeddi, hyd yn oed os oes newidiadau mân wedi eu gwneud rhwng Fersiwn 1.0 a 2.0.

*A ydym yn casglu adborth gan staff er mwyn deall y gwahaniaethau bychain a ddaw o'r cydweithio rhwng yr Awdurdodau Lleol, o ran Gofal Cymdeithasol ac Iechyd?*

Rydym yn falch iawn o'n hanes yn cydweithio rhwng Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sydd yn deillio nôl i 2005-6. Mae yna heriau sylweddol o ran y rhyngweithio. Mae'r adborth yn cael ei gofnodi yn yr oruchwyliaeth broffesiynol y mae gweithwyr cymdeithasol ac eraill yn cael gyda'u rheolwyr, ac yna'n llywio'r casgliadau y mae'r Prif Swyddog ar gyfer Gofal Cymdeithasol yn paratoi ar gyfer yr adroddiad blynyddol. Mae yna bethau sensitif i'w cael weithiau, ond dyma sut y byddem yn casglu'r wybodaeth. Efallai bod adroddiad Arolygiaeth Gofal Cymru, a baratowyd ar ddiwedd 2021, o bosib yn ddefnyddiol: gwnaed llawer o waith gyda staff ac roedd llawer o adborth wedi ei gynnwys.

*A ydym yn adolygu'r cwestiynau yn yr holiaduron ar gyfer defnyddwyr Gwasanaeth Cymdeithasol fel ein bod yn medru sicrhau ein bod yn gofyn y cwestiynau cywir?*
Mae'r rhain yn gwestiynau cenedlaethol. Mae'r dyluniad wedi ei lywio drwy gynnwys defnyddwyr gwasanaeth, ein tîm perfformiad a'n tîm gwasanaethau cwsmer. Mae'n arolwg sydd wedi ei gynnal ers tro o ddefnyddwyr Gofal Cymdeithasol i Oedolion, gan roi darlun cyfoethog i ni o dueddiadau a newidiadau - wrth awgrymu unrhyw newidiadau, bydd angen bod yn ymwybodol y bydd hyn yn effeithio ar ein gallu i fonitro tueddiadau dros amser. Mae yna bwyslais ar sut ydym yn defnyddio gwybodaeth er mwyn llywio ein fframwaith perfformiad ynghyd â'r matrics a'r mesurau perfformiad. Mae'r holl dystiolaeth yn dod ynghyd yn adroddiad y Prif Swyddog ar gyfer Gofal Cymdeithasol, a fydd o bosib yn dod i'r Pwyllgor maes o law.

*Mae'r ffocws yn cynnwys canlyniadau a gytunir ond ychydig iawn o wybodaeth sydd yma ar gyfer yr effaith ar drigolion a chymunedau. A fyddai'n asesiad cryfach pe bai hyn wedi ei gynnwys?*

Mae'r hunanasesiad yn ymwneud yn bennaf gyda'r effaith ar gymunedau. Wrth i ni ddatblygu'r adroddiad, byddwn yn ystyried sut y byddwn yn cryfhau'r asesiad o wasanaethau sydd yn cael eu darparu neu'r blaenoriaethau polisi, yn benodol gan ddangos yr effaith y bydd hyn cael ar y defnyddiwr gwasanaeth - a hynny drwy'r adroddiad, nid ar y diwedd yn unig. Yr ail agwedd yw

cynnwys h.y. barn trigolion a defnyddwyr gwasanaeth drwy ymgysylltu ayyb yn enwedig gyda'r ddyletswydd yn y Ddeddf i gryfhau'r gwaith o'u cynnwys.

*O dan Amcan A, mae'r cynnydd yn y ganran o bobl ifanc NEET ym Mlwyddyn 11 yn bryder, wedi cynyddu o 0.4% i 2%. Beth yw eich sylwadau chi am hynt?*

Mae'r cynnydd hyn yn bwysig i'w nodi, er yn nifer cymharol fach. Mae mwy o fanylder gan y tîm Cyflogaeth a Sgiliau am brofiadau a chanlyniadau'r plant ac yn gweithio gyda hwy er mwyn eu cefnogi i gymryd mantais o gyfleoedd addysg a hyfforddi. Maent hwy mewn sefyllfa well i gynnig mwy o sylwadau.

*Mae'r cynllun 20mya yn dangos fel y mesur sengl ar gyfer Amcan C ar gyfer cadw cofnodion ac ardaloedd yn ddiogel? Pa opsiynau eraill sydd ar gael e.e. rampiau cyflymderau, camerâu, gorfodi'r mesurau yn fwy?*

Mae 20mya yn un mesur ond mae yna ystod o faterion er mwyn sicrhau bod ffyrdd yn ddiogel. Rhaid i ni ystyried amryw o ffactorau er mwyn penderfynu a ydym wedi bod yn llwyddiannus. Roedd yna lawer o waith wedi ei wneud cyn hyn fel rhan o grŵp cylch a gorchwyl o dan bwyllgor craffu arall ac mae'r polisi i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Lleoedd. Felly, bydd yna gyfle i graffu ar ychydig o'r manylion cyn bod y polisi yn cael ei fabwysiadu ond nid oes llawer o fanylion gennym heddiw.

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r adroddiad o ran darparu cyd-destun gwerthfawr i aelodau newydd ac yn cynorthwyo'r Pwyllgor i ddatblygu ei Flaenraglen Waith. Maer Pwyllgor yn cydnabod y cynnydd yn y nifer o bobl ifanc na sydd mewn gwaith neu ym myd addysg ac yn derbyn bod yna strategaeth ar gael sydd o bosib o ddiddordeb pellach i'r Pwyllgor. Mae Aelodau yn amddiffyn yr angen bod y Cyngor yn meddu ar gynllun lleihau hinsawdd amlwg ar draws yr holl wasanaethau. Bydd y Pwyllgor yn aros am ddatblygiad y Cynllun Corfforaethol newydd a fydd yn dod i'r Pwyllgor am graffu cyn gwneud penderfyniad maes o law ac yn awgrymu bod ystyriaeth yn cael ei roi i sut y mae modd adlewyrchu barn trigolion a defnyddwyr iyn fwy cryf y canlyniadau. Cynigiwyd a chytunwyd ar yr argymhellion yma. .

9. **Blaenraglen Gwaith – Ystyried yr Adroddiad Blaenraglen Gwaith a dynodi meysydd i'w craffu ymhellach, ac wrth wneud hynny, gytuno ar ddrafft Flaenraglen Gwaith.**

Awgrymwyd y testunau canlynol gan Aelodau:

- Dygnwch y Cyngor a Chymunedau, yn benodol os y bydd Covid yn digwydd eto neu'r pandemig nesaf.
- Sut y mae'r weinyddiaeth newydd yn defnyddio arian wrth gefn y Cyngor .
- Caffael: yn ennyn dealltwriaeth o'r berthynas gyda Chyngor Caerdydd a'r buddion (bydd yna graffu o'r Strategaeth Gaffael cyn gwneud penderfyniad, a hynny yn y cyfarfod nesaf)
- Recriwtio a chadw staff: effaith Covid, yr her a ddaw o gael swyddi gwag a'r gwahaniaethau cyflog.
- Y Stratgaeth Rheoli Asedau ar ffyrdd o reoli hyn.

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Cyflwynwyd yr adroddiad a chytunwyd ar amlinelliad o'r Blaenraglen Waith: bydd yn cael ei rannu ar ôl y cyfarfod er mwyn caniatáu'r holl Aelodau i ychwanegu mwy o awgrymiadau. Mae'r Pwyllgor yn cytuno ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf ar 29ain Medi a bydd yn cynnwys craffu o'r Strategaeth Gaffael cyn gwneud penderfyniad, Craffu Adroddiad Blynyddol y Prif Swyddog ar gyfer Gofal Cymdeithasol ac Iechyd, Monitro'r Gyllideb ar gyfer Mis 4 a'r Gofrestr o Risgiau Strategol. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod na fydd hyn o bosib yn medru cael ei gyflawni mewn un cyfarfod, ac felly yn cytuno y bydd yn Gofrestr o Risgiau Strategol yn cael ei dderbyn yn y cyfarfod hwn ond yn cael ei drafod mewn gweithdy craffu yn y dyfodol er mwyn cytuno ar ba feysydd y dylid craffu arnynt yn y dyfodol.

10. **<u>Cyfarfod nesaf: Dydd Iau 29 Medi 2022 am 10.00am.</u>**

Dydd Iau 29ain Medi 2022 am 10.00am.